OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2918 (Cy.257)

# GWASANAETHAU TÂN

PENSIYNAU

## Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - | - | *9 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | - | - | *11 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 36, 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**):

**Cymhwyso, enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchmyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 11 Tachwedd 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cynllun" yw'r cynllun a sefydlwyd o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**2**) ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**3**).

**Cadw'r cynllun pensiwn presennol**

**3.**—(1) Er gwaethaf diddymu adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**4**)), bydd y Cynllun yn parhau mewn grym.

(2) Bydd y deddfiadau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn parhau i fod ag effaith at ddibenion y Cynllun fel pe na baent wedi'u diwygio neu eu diddymu, fel sy'n briodol, gan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

(**1**) 2004 p.21.
(**2**) 1947 p. 41.
(**3**) O.S. 1992/129, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2309, 1997/2851, 1998/1010, 2001/3649, 2001/3691 ac O.S. 2001/310.
(**4**) Diddymir Adran 26 gan adran 54 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac Atodlen 2 iddi, ond mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a'r Atodlen iddo yn parhau i roi effaith i'r adran honno at ddibenion y Cynllun.

**Newid enw'r cynllun**

**4.**—(1) Enw newydd y Cynllun fydd "Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)".

(2) Dehonglir unrhyw gyfeiriad at y Cynllun mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen arall (gan gynnwys y Cynllun ei hun) fel cyfeiriad at y Cynllun o dan ei enw newydd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

9 Tachwedd 2004

(**5**) 1998 p.38.